



# **Cynllun grantiau Cymru o Blaid Affrica**

**Arweiniad ymgeisio am  
grant:**

**Llenwi ffurflen proffil y  
prosiect**

## Llenwi proffil y prosiect

Defnyddiwch y proffil a ddarparwyd gyda'r cais am grant ar eDendroCymru. Peidiwch â newid fformat y proffil na newid y fformiwlâu o gwbl. Pe bai'r fformat neu'r fformiwlâu yn cael eu newid o gwbl, mae'n bosib y bydd eich cais yn anghymwys.

Gweithlyfr Excel yw proffil y prosiect a cheir ynddo bum taenlen, neu 'tabiau'. Mae angen i chi gwblhau'r tabiau o'r enw 'Cyllid', a 'Targedau'r prosiect'.

Defnyddir y gweithlyfr hwn i broffilio costau ariannol pendant a thargedau disgwylidig eich prosiect. Bydd y wybodaeth rydych yn ei darparu yn ffurfio sail unrhyw ddyfarniad grant os yw'ch cais yn llwyddo. Cofiwch ddarllen yr arweiniad isod yn ofalus.

Sylwer: os ydych yn methu ag ateb y gofynion ar gyfer unrhyw rai o'r cwestiynau sydd ag 'isafswm sgôr' ar y ffurflen gais arlein ar eDendroCymru, bydd yr asesiad yn gorffen ac felly nid ystyrir y proffil prosiect hwn.

## Taflen flaen

Y cwbl y mae angen ei roi ar y daflen hon yw enw'ch mudiad.

## Taflen Cyllid

Dilynwch y canllaw cam wrth gam hwn:

1. **Llinell amser:** dechreuwch drwy deipio dyddiad olaf y chwarter yn rhes 4. Er enghraifft, os yw'ch prosiect yn dechrau ym mis Ebrill, yna mis Mehefin fydd diwedd y chwarter cyntaf, felly rhowch '06-18'. Bydd yn ymddangos yn y daenlen fel 'Jun-18'. Gwnewch hyn ar gyfer pob chwarter tra bydd eich prosiect ar waith.

*Gair i gall:* A yw'r rhain yr un fath â'r dyddiadau rydych wedi'u crybwyll yn eich cais? A ydynt o fewn y dyddiadau a osodir gan y rownd gyllido?

2. **Costau'r prosiect:** nodwch holl gostau'r prosiect sydd ynghlwm wrth eich prosiect cyfan. Os ydych yn ymgeisio am gyllid ar gyfer rhan o brosiect mwy, dylech gynnwys popeth yn ymwneud â'r costau, hyd yn oed os oes cyllidwr arall yn talu am rai o'r costau. Rhoddir rhai enghreifftiau yn nhab 4, 'Cyllid enghreifftiol'. Rhowch gymaint o eglurhad ag rydych yn meddwl y byddai rhywun o'r tu allan ei angen i ddeall y pethau y mae angen talu amdanynt.

*Gair i gall:* A yw'r rhain yr un fath â'r eitemau a grybwyllwyd neu a awgrymwyd yn eich cais? A oes cost wedi'i chlustnodi yn y proffil hwn ar gyfer popeth rydych yn dweud rydych am ei wneud?

## Sylwer: Gorbenion

Efallai mai dim ond un o brosiectau a gwasanaethau'ch mudiad yw'r prosiect a ariennir drwy gynllun grantiau Cymru o Blaid Affrica ac efallai y bydd y prosiect hwnnw'n defnyddio llawer o'r adnoddau sydd gennych yn barod er mwyn iddo fynd rhagddo'n llwyddiannus. Mae yna gost i'ch mudiad am gynnal yr adnoddau hyn a chan fod y prosiect yn eu defnyddio, maent yn gostau cymwys yn y prosiect. Gelwir costau sy'n cael eu rhannu rhwng y prosiect a'r mudiad yn gostau gorbenion neu gostau anuniongyrchol.

Os ydych yn bwriadu cynnwys cyfraniad at orbenion, dylech naill ai gynnwys yr union gostau hyn, neu glustnodi swm sy'n gyfwerth â 15% o gyfanswm costau talu staff.

Argymhellwn yr opsiwn hwn, ond os ydych yn ei ddefnyddio ni fyddem yn disgwyl gweld gorbenion megis rhent, ardrethi, cyfleustodau, ayyb, wedi'u cynnwys yr adran hon. Nid yw 'ffi rheoli' yn gost gymwys mewn prosiect.

- Amser gwirfoddolwyr:** yn y bôn, rhodd amser yw hyn gan bobl i'ch prosiect ac felly mae'n cyfrif fel cost 'mewn nwyddau'. Rhaid sicrhau ffordd gyson o fesur hyn, felly rhestrir yn nhab 5, 'Cyfraddau gwirfoddoli', y cyfraddau a argymhellir gan Uned Wirfoddoli WCVA. Defnyddiwch y rhain i gyfrifo 'cost' amser gwirfoddolwyr a rhowch gymaint o eglurhad ag rydych yn meddwl y byddai rhywun o'r tu allan ei angen i ddeall y cyfrifiad. Rhoddir rhai enghreifftiau yn nhab 4, 'Cyllid enghreifftiol'.

Os oes gweithiwr proffesiynol, megis syrfëwr neu gyfrifydd, yn rhoi o'i amser proffesiynol am ddim, gallech ddefnyddio'r cyfraddau safonol y mae'n ei hysbysebu i egluro'r gyfradd a ddefnyddir - ond os yw'n rhoi o'i amser mewn rôl arall, yna dylai'r gyfradd adlewyrchu'r rôl honno ac nid ei waith bob dydd.

Os nad ydych yn bwriadu cynnwys amser gwirfoddolwyr, gadewch yr adran hon yn wag. Os ydych yn ymgeisio am gyllid ar gyfer rhan o brosiect mwy, dylech gynnwys popeth sy'n ymwneud ag amser gwirfoddolwyr, hyd yn oed os oes cyllidwr arall yn talu am rai o'r costau.

*Gair i gall:* A ydych wedi dweud yn eich cais y bydd gwirfoddolwyr yn rhan o'r prosiect? A yw'ch cais yn ei gwneud yn glir beth fydd eu rolau ac a ydynt yr un fath â'r hyn rydych wedi'i restru?

- Costau staff:** dangoswch y costau staff rydych yn disgwyl eu cael ar gyfer pob rôl unigol. Dylai'r costau hyn gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr, os yw'n berthnasol; ond gallai hefyd gynrychioli taliadau i staff sesiynol sy'n anfonebu am eu gwasanaethau.

Os ydych yn ymgeisio am gyllid ar gyfer rhan o brosiect mwy, dylech gynnwys popeth sy'n ymwneud â chostau staff, hyd yn oed os oes cyllidwr arall yn talu am rai o'r costau. Rhoddir rhai enghreifftiau yn nhab 4, 'Cyllid enghreifftiol'. Rhowch gymaint o eglurhad ag rydych yn meddwl y byddai rhywun o'r tu allan ei angen i ddeall y pethau y mae angen talu amdanynt.

Ni ddylai'r adran hon gynnwys costau eraill staff megis treuliau neu ddillad amddiffynnol - dylai'r rheini fod yn yr adran 'costau'r prosiect'. Hefyd, os ydych wedi dewis gwneud cyfrif am orbenion drwy gyfrifiad 15% syml yn yr adran 'costau'r prosiect', ni fyddem yn disgwyl gweld cyfraniad tuag at adnoddau staff a rennir megis TG, cyflogres, ayyb, yn yr adran hon.

### Sylwer: Cyfradd y Living Wage Foundation

Mae WCVA yn 'gyllidwr Cefnogi Cyflog Byw' ac mae'n disgwyl i bob cyflog sy'n cael ei gynnwys yng nghyllideb y prosiect adlewyrchu cyfradd y Living Wage Foundation, pan fo'n bosib. Mae hyn yn cynnwys unrhyw swyddi a fydd yn cael eu hariannu'n llawn, cyfraniadau rhannol at swydd staff, gweithwyr sesiynol, interniaid neu brentisiaid. Mae manylion cyfradd bresennol y Living Wage Foundation ar gael ar <https://www.livingwage.org.uk/>

*Gair i gall:* A ydych wedi crybwyll y swyddi staff hyn yn eich cais? Os oes angen i chi benodi staff newydd, a ydych wedi cynnwys costau recriwtio? A ydych wedi cynnwys

rôl gweinyddwr prosiect? - bydd y rhan fwyaf o'r gwaith i weinyddu grant y cynllun hwn yn cael ei wneud arlein felly bydd arnoch angen rhywun sydd â'r sgiliau priodol i fewnbynnu gwybodaeth am eich prosiect. A yw'ch cais yn ei gwneud yn glir beth fydd swyddogaethau'r staff ac a ydynt yr un fath â'r hyn rydych wedi'i restru?

5. **Costau mewn nwyddau:** mae'r rhain yn cynrychioli rhoddion i'ch prosiect y gallwch roi gwerth arnynt fel cost 'mewn nwyddau'. Mae rhoddion amser wedi'u cynnwys yn yr adran 'Amser gwirfoddolwyr'. Cyfrifwch 'gost' y nwyddau neu'r gwasanaethau a roddir a rhowch gymaint o eglurhad ag rydych yn meddwl y byddai rhywun o'r tu allan ei angen i ddeall y cyfrifiad. Rhoddir rhai enghreifftiau yn nhab 4, 'Cyllid enghreifftiol'. Os nad ydych yn disgwyl cyfraniadau mewn nwyddau, gadewch yr adran hon yn wag. Os ydych yn ymgeisio am gyllid ar gyfer rhan o brosiect mwy, dylech gynnwys popeth sy'n ymwneud â chostau mewn nwyddau, hyd yn oed os oes cyllidwr arall yn talu am rai o'r costau.

*Gair i gall:* A ydych wedi dweud yn eich cais y byddwch yn defnyddio nwyddau neu wasanaethau a roddir? A ellid defnyddio hyn i helpu i ddangos y gefnogaeth sydd gennych gan y gymuned?

Os dyfarnir grant Cymru o Blaid Affrica i chi, ni fyddwn yn gofyn i chi am dystiolaeth o'r costau hyn ymlaen llaw, ond mae'n bosib y gofynnwn i chi am eglurhad neu dystiolaeth bellach wrth asesu'r cais; a bydd ein hymweliadau monitro prosiectau yn cynnwys gwirio taliadau sydd wedi'u codi ar y prosiect, gan gynnwys derbynebaw, anfonebau, cyfriflenni, ayyb, os oes angen. Os ydych wedi dewis y cyfrifiad 15% ar gyfer gorbenion, ni fydd angen i chi ddarparu dystiolaeth i ategu hyn.

6. **Cyfansymiau:** bydd y daenlen yn cyfrifo'n awtomatig gyfanswm cost y prosiect a faint o'r costau hynny sydd mewn nwyddau. Bydd angen i chi deipio'r canlynol i mewn:
- Swm y grant y gofynnir amdano: dyma ble rydych yn dweud wrthym faint rydych ei angen o'r cynllun Cymru o Blaid Affrica. Y costau sy'n weddill (os oes rhai o gwbl) fydd eich cyfraniad 'cyllid cyfatebol' gwirioneddol. Os yw'r blwch 'Cyllid cyfatebol arall a ddarperir' yn troi'n goch, rydych wedi gofyn am ormod!
  - Ffynhonnell y cyllid cyfatebol: os ydych yn darparu rhai o'r costau eich hun, rhowch wybod i ni o ble y mae'n dod; ee o'ch cronfeydd wrth gefn neu'ch cronfeydd digyfngiad eich hun, cyllidwyr eraill, ayyb. Nid oes angen i chi roi gwybod i ni am y cyllid cyfatebol mewn nwyddau oherwydd bydd hyn eisoes wedi'i gynnwys mewn adrannau blaenorol. Os nad yw ffynhonnell eich cyllid cyfatebol wedi'i rhestru yn y gwymplen, nodwch hi yn y gell o dan y gwymplen

*Gair i gall:* A ydych wedi croes-gyfeirio'r holl wybodaeth ariannol â'ch cais? A oes rhywun arall wedi gwirio eich cyfrifiadau?

### Pwyntiau allweddol i'w cofio

- Cyfrifwch gost lawn y prosiect a byddwch yn siwr y bydd y pecyn ariannu, gan gynnwys grant Cymru o Blaid Affrica, yn ddigonol ar gyfer y gost hon.
- Os yw'ch mudiad yn elusen, rhaid i chi wneud cyfrif am y grant fel cronfa gyfyngedig. Gallwch gael gwybod mwy am gronfeydd 'cyfyngedig' yma - [http://www.charitysorp.org/media/620724/frs102\\_module-2.pdf](http://www.charitysorp.org/media/620724/frs102_module-2.pdf)

- Os nad yw'ch mudiad yn elusen, rydym yn dal i ddisgwyl i chi gadw cofnodion ariannol mewn ffordd a fydd yn dangos yn glir y gwariant penodol ar y prosiect, neu'r rhan o'r prosiect a ariennir gan grant Cymru o Blaid Affrica.

### **Taflen targedau'r prosiect**

Y drydedd daflen ym mhroffil y prosiect yw'r daflen 'Targedau'r prosiect'. Bydd angen i chi gwblhau'r daflen hon i ddangos y targedau, neu'r cerrig milltir, a gyflawnir yn ystod oes y prosiect.

Dylai'r targedau fod yn gymesur â maint a chwmpas eich prosiect. Peidiwch â themlo bod rhaid i chi ychwanegu targedau lluosog os yw'ch prosiect yn weddol fach a syml. Cofiwch, bydd y targedau rydych yn eu gosod yn cael eu defnyddio fel eich 'dangosyddion perfformiad allweddol' os yw'ch cais am grant yn llwyddo: os ydych yn dweud y bydd y prosiect yn cyflawni rhywbeth mewn chwarter penodol, ac yna nid yw hynny'n digwydd, byddwn yn gofyn i chi beth aeth o'i le.

Ni fydd pob targed posib yn berthnasol i'ch prosiect: gwiriwch beth rydych wedi'i ddweud yn eich cais a sicrhewch fod targedau'r proffil yn gyson â hynny.

**Llinell amser:** bydd hwn yn cael ei gwblhau'n awtomatig yn ôl y dyddiadau rydych yn eu rhoi ar y daflen cyllid.

Wrth gynllunio gweithgareddau a chanlyniadau, clustnodwch amser ar y dechrau ar gyfer paratoi a recriwtio staff a gwirfoddolwyr; ac ar y diwedd i gau pen y mwdwl, cofnodi canlyniadau a chyflwyno'ch adroddiad terfynol.

Mae'r targedau a restrir yn cyfateb i ddogfen ganllaw'r prosiect yr ydych wedi'i lawrlwytho o eDendroCymru. Dylai fod gan bob un werth rhifol; dylai unrhyw ddisgrifiad fod yn nhestun eich cais.

Dylai pob proffil gynnwys rhai targedau yn yr adran 'Cyffredinol'.

Dim ond ar gyfer y themâu rydych wedi'u dewis y mae angen i chi osod targedau, hynny yw, lechyd, Dysgu gydol oes, Y newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd neu Fywoliaethau cynaliadwy.

### **Pwyntiau allweddol i'w cofio**

- Dim ond targedau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'ch prosiect y dylid eu cynnwys.
- Croes-gyfeiriwch at eich cais am grant a gofynnwch i rywun o'r tu allan ei wirio.
- Sicrhewch fod eich targedau yn rhesymol, yn gyraeddadwy o fewn yr amserlen, ac yn gymwys am gyllid drwy gynllun Cymru o Blaid Affrica.